## Cofnodion y cyfarfod diwethaf

**19 Tachwedd 2014**

**Tŷ Hywel, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

| YN BRESENNOL: | | |
|---|---|---|
| **Bethan Jenkins AC** (Cadeirydd) | BJ | AC dros Orllewin De Cymru (Plaid Cymru) |
| **Samia Saeed-Edmonds** | SS | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Partneriaethau, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf |
| **Leslie Rudd** | LR | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **Michelle Bushell** (Ysgrifennydd) | MB | Beat Cymru |
| **Ewan Hilton** | EH | Gofal |
| **Katie Dalton** | KD | Gofal |
| **Hazel Yates** | HY | Gofal |
| **Manon Lewis** | ML | Beat |
| **Bridget Taylor** | BT | Beat |
| **Julie Davis** | JD | Beat |
| **Menna Jones** | MJ | Arweinydd Clinigol Haen 3, Bwrdd Iechyd Caerdydd a’r Fro / Cwm Taf |
| **Carolyn Sansom** | CS | Arweinydd Clinigol Haen 2 Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf |
| **Robin Glaze** | RG | Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a’r Glasoed Gogledd Cymru |
| **Emma Hagerty** | EH | Arweinydd Haen 2 Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan |
| **Gill Davies** | GD | Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a’r Glasoed Caerdydd a’r Fro |
| **Clare O’Reilly** | CR | Haen 3 BILl Caerdydd a’r Fro |
| **Jane Burgoyne** | JB | Haen 1 BILl Caerdydd a’r Fro |
| **Jacinta Tan** | JT | Athro Cyswllt Clinigol, Coleg Meddygaeth Abertawe |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| **Don Ribeiro** | DR | Gofalwr |
| **Janet Ribeiro** | JR | Gofalwr |

| CPGED/NAW4/07 – Croeso ac ymddiheuriadau | Camau gweithredu |
|---|---|
| Croesawodd Bethan Jenkins AC y rhai a oedd yn bresennol i gyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Anhwylderau Bwyta.<br><br>CAFWYD:<br><br>**Ymddiheuriadau gan aelodau absennol:**<br>• Janet Finch-Saunders AC<br>• Mohammad Asghar AC<br>• Martin Bell<br>• Ian Hulett<br>• Annette Dunne<br>• James Downs<br>• Helen Missen | |
| **CPGED/NAW4/08 – Cofnodion y cyfarfod diwethaf** | **Camau gweithredu** |
| CYTUNWYD: Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf.<br><br>TRAFODWYD: Materion yn codi<br><br>• CPGED/NAW4/02 – Y Fframwaith Anhwylderau Bwyta<br>**CAM I'W GYMRYD:** BJ i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru<br>**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafodd BJ lythyr gan Mark Drakeford, y Gweinidog Iechyd yn nodi eu bod yn gobeithio cynnal adolygiad erbyn y Gwanwyn 2015. Mae swyddogion yn | <br><br><br><br><br><br>BJ i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am |

DRAFT

| | |
|---|---|
| ystyried yr opsiynau o ran yr adolygiad a thystiolaeth gan gyfleusterau anhwylderau bwyta i gleifion mewnol yng Nghymru, i lywio'r adolygiad.<br><br>• **CPGED/NAW4/04 – Beat Cymru**<br>**Y WYBODAETH DDIWEDDARAF**: Rhoddodd EH y wybodaeth ddiweddaraf am y bartneriaeth rhwng Beat a Gofal. Rhoddodd HY drosolwg o gais am arian Adran 64 Beat i godi ymwybyddiaeth drwy raglen hyrwyddo a model cyflwyno hyfforddiant i weithwyr iechyd proffesiynol. Disgwylir y penderfyniad ariannu erbyn diwedd 2014.<br><br>• **CPGED/ NAW4/05 – Materion i'w codi**<br>**CAM I'W GYMRYD**: Bydd y grŵp yn gwahodd cynrychiolydd o Gymdeithas Feddygol Prydain i'r cyfarfod nesaf, i drafod sut mae meddygon teulu/staff gofal sylfaenol yn adnabod ac yn trin anhwylderau bwyta?<br>**Y WYBODAETH DDIWEDDARAF**: Cytunodd y grŵp y byddai'n ddefnyddiol gwahodd meddyg teulu i gyfarfod yn y dyfodol, a byddai'n ystyried yr opsiynau.<br><br>• **CPGED/NAW4/06 – Unrhyw fater arall**<br>**CAM I'W GYMRYD**: Bydd Bethan yn cwrdd â Tina Gambling o Brifysgol Caerdydd yn fuan i drafod ei chanfyddiadau ynghylch hunan-barch mewn addysg.<br>**Y WYBODAETH DDIWEDDARAF**: Mae Tina Gambling yn cynnal astudiaeth bwrdd gwaith am ddelwedd y corff, ond ni fu'n bosibl cysylltu â hi. Bydd BJ parhau i geisio trefnu cyfarfod gyda hi. | yr amserlenni ar gyfer yr adolygiad o'r Fframwaith Anhwylderau Bwyta<br><br>BJ i barhau i geisio trefnu cyfarfod gyda Tina Gambling |
| **CPGED / NAW4 / 09 – Gwasanaethau Anhwylderau Bwyta yng Nghymru** | **Camau gweithredu** |
| Croesawodd BJ Samia Saeed-Edmonds (Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Partneriaethau ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf) a Dr Leslie Rudd (Pennaeth y Ganolfan Datblygu | |

Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cymru) i'r cyfarfod a gwahoddodd hwy i wneud eu cyflwyniadau ynghylch gwasanaethau anhwylderau bwyta yng Nghymru. Roedd eu cyflwyniad yn cynnwys y pwyntiau canlynol:

### Llwyddiannau diweddar

- Sefydlu Gwasanaethau Haen 3 ar draws Cymru
- Perthnasoedd gwell a phontio gwell ar draws yr Haenau
- Gweithredu o ran Targedau Anhwylderau Bwyta Deallus
- Cynnwys Anhwylderau Bwyta yn y Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl
- Gofal yn cynnal menter B-fwyta Cymru

### Y sefyllfa bresennol Cyfleoedd a Risgiau

- Mae'r Rhwydwaith Clinigol Anhwylderau Bwyta Haen 3 wedi'i hen sefydlu, ond mae'n gyfyngedig o ran ei gylch gwaith.
- Rhwydwaith Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed / Anhwylderau Bwyta newydd Cymru Gyfan
- Sefydlu rhwydweithiau defnyddwyr gwasanaeth newydd
- Mae pwysau ar wasanaethau ar draws yr holl Haenau
- Gallai Anhwylderau Bwyta fod â ffocws cryfach yn Haen 4MH – sut allwn ni ddylanwadu yn hyn o beth?
- Adolygiad o'r Fframwaith Anhwylderau Bwyta

### Blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg

- Gofal Sylfaenol
- Gwerthusiad o Opsiynau Haen 4 i gael ei gwblhau
- Datblygu rhagor o rwydweithiau defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr
- Adnewyddu ffocws y Rhwydwaith Anhwylderau Bwyta Haen 3 Cymru Gyfan
- Cynhadledd Anhwylderau Bwyta?

| | |
|---|---|
| CPGED/NAW4 10 – Trafodaeth | Camau gweithredu |

DRAFT

Trafododd yr Aelodau o'r grŵp trawsbleidiol y materion a godwyd yn y cyflwyniad a buont yn ymateb i'r cwestiynau canlynol ar ddiwedd y cyflwyniad:

**Beth sy'n gweithio'n dda;**

- Mae gan y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed rôl gwasanaeth allgymorth wedi'i ariannu yn Ne Cymru, ac mae elfen o hyfforddiant sydd ynghlwm â'r gwasanaeth hwn, er mwyn codi safonau pobl sy'n gweithio yng ngwasanaethau anhwylderau bwyta'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed.
- Casglu data ar haen 3, a mesur canlyniadau cadarnhaol

**Sut wasanaeth yw/ fyddai gwasanaeth da?**

- Gwasanaeth atgyfeirio gan feddygon teulu ar gyfer achosion brys, at y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, o fewn wythnos.
- Mae ar feddygon teulu angen hyfforddiant pellach o ran Anhwylderau Bwyta, er mwyn gallu atgyfeirio cleifion yn hyderus i'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed a Gwasanaethau Oedolion. Mae rhai meddygon teulu yn amwys pan fydd achos o Anhwylder Bwyta yn dod i'r amlwg, ac mae angen gwella eu sgiliau i adnabod y cyflwr.
- Cael strwythur fframwaith sy'n gyson drwy'r holl wasanaethau a haenau.
- Sefydlu therapydd teulu i weithio mewn timau anhwylderau bwyta
- Mesur canlyniadau ar y cyd â defnyddwyr gwasanaethau

**Beth fyddai eich blaenoriaethau?**

- **Adolygu'r Fframwaith Anhwylderau Bwyta ar gyfer Cymru**
- **Codi proffil anhwylderau bwyta mewn polisïau iechyd meddwl cyffredinol**
- **Gwella agweddau a lleihau stigma**

DRAFT

| | |
|---|---|
| **Ymyrraeth gynnar: gofal sylfaenol ac addysg**<br>• Gwella ymwybyddiaeth gweithwyr iechyd proffesiynol o anhwylderau bwyta mewn gofal sylfaenol a gwasanaethau cymunedol cyffredinol, a'u gwybodaeth yn hyn o beth.<br>• Darparu hyfforddiant arbenigol ynghylch anhwylderau bwyta i feddygon teulu a gweithwyr proffesiynol gofal sylfaenol perthnasol eraill.<br>• Gwella'r wybodaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl sydd â phrofiad o anhwylderau bwyta a'u teuluoedd / gofalwyr.<br>• Sicrhau bod atgyfeiriadau priodol ac amserol gwell ar gael.<br>• Diweddaru'r Fframwaith Anhwylderau Bwyta ar gyfer Cymru i gynnwys y dyletswyddau a'r gwasanaethau cyfreithiol a ddarperir o dan Ran 1 o'r Mesur Iechyd Meddwl (Cymru).<br>• Gwella eglurder ynghylch llwybrau atgyfeirio o ofal sylfaenol.<br>• Gwella'r gallu sydd gan feddygon teulu a Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Lleol Sylfaenol i brysuro achosion pobl sydd ag anhwylderau bwyta, a darparu ymyriadau amserol.<br>• Cefnogi Gwirfoddolwyr, fel llysgenhadon Beat, i weithio gyda phartneriaid iechyd i wella ymatebion cyntaf i gleifion sydd ag anhwylderau bwyta.<br>• Cefnogi mwy o ymchwil, i asesu'r anawsterau a'r pwysau sy'n wynebu pobl ym maes gofal sylfaenol i ddarparu gwybodaeth, triniaeth a chymorth i bobl sydd â phrofiad o anhwylderau bwyta.<br>• Lleihau amseroedd aros ar gyfer triniaeth a chymorth.<br>• Lleihau'r amrywiaeth o ran triniaeth, cefnogaeth ac amseroedd aros ar draws Cymru.<br>• Gwella'r sylfaen dystiolaeth o ran effeithiolrwydd gwahanol fathau o driniaeth a chymorth.<br>• Darparu'r ymyriadau mwyaf priodol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gwella'r canlyniadau i gleifion.<br>• Gwella'r sylfaen dystiolaeth am effeithiolrwydd ymyriadau cynnar.<br>• Gwella gwybodaeth, ymwybyddiaeth a chefnogaeth mewn ysgolion – ar gyfer disgyblion a staff. | **BJ** i ysgrifennu at David Rees AC, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd i dynnu sylw at anhwylderau bwyta yn yr adolygiad o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru). |

DRAFT

<table>
<tr>
<td>
<ul>
<li>Gwella gwybodaeth am lwybrau atgyfeirio ar gyfer disgyblion ag anhwylderau bwyta.</li>
<li>Cefnogaeth i lysgenhadon Beat i weithio gyda'r ysgol i roi'r sgiliau cywir i athrawon gynorthwyo disgyblion ag anhwylderau bwyta yn well.</li>
<li>Gwella cefnogaeth i bobl sy'n gadael cartref i fynd i golegau / prifysgolion, lle y gallant fod yn symud oddi wrth weithwyr iechyd proffesiynol, teulu a rhwydweithiau cymorth.</li>
<li>Gwella gwybodaeth, ymwybyddiaeth a chefnogaeth mewn colegau a phrifysgolion – ar gyfer myfyrwyr a staff.</li>
</ul>
Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed
<ul>
<li>Gwella'r rhyng-berthynas rhwng y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed a Fframwaith Anhwylderau Bwyta Cymru.</li>
<li>Darparu hyfforddiant arbenigol ar anhwylderau bwyta ar gyfer y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed er mwyn gwella sgiliau staff.</li>
<li>Lleihau amseroedd atgyfeirio ledled y gwasanaethau Anhwylderau Bwyta/ Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed.</li>
<li>Gwella argaeledd therapyddion teulu yn y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed .</li>
<li>Gwella'r broses o bontio rhwng y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed a gwasanaethau oedolion.</li>
<li>Cefnogi'r cynnig i uno rhwydwaith Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed / Anhwylderau Bwyta Cymru Gyfan â Rhwydwaith Clinigol Haen 3 Cymru Gyfan.</li>
</ul>
Sgiliau ac agweddau ar wardiau cyffredinol, wardiau iechyd meddwl a wardiau pediatreg.
<ul>
<li>Gwella dealltwriaeth o anhwylderau bwyta a gwybodaeth amdanynt ar wardiau cyffredinol, wardiau iechyd meddwl a wardiau pediatreg.</li>
<li>Leihau'r stigma a gwella agweddau tuag at bobl ag anhwylderau bwyta sy'n cael eu rhoi ar wardiau cyffredinol,</li>
</ul>
</td>
<td>KD/MB i lunio dogfen ddrafft yn amlinellu'r prif faterion / blaenoriaethau, a'i dosbarthu i aelodau'r Grŵp Trawsbleidiol i gael mewnbwn ganddynt.</td>
</tr>
</table>

DRAFT

| | |
|---|---|
| wardiau iechyd meddwl a wardiau pediatreg.<br>• Gwella'r hyfforddiant ar anhwylderau bwyta ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol ar wardiau cyffredinol, wardiau iechyd meddwl a wardiau pediatreg.<br><br>Cytunodd y grŵp y byddai'n ddefnyddiol i greu dogfen sy'n amlinellu'r materion a'r blaenoriaethau a drafodwyd yn y cyfarfod. Gallai hyn wedyn fod yn 'faniffesto' ar gyfer y grŵp trawsbleidiol, y gellid ei fwydo i'r adolygiad o Fframwaith Anhwylderau Bwyta Cymru. | |
| **CPGED/NAW4/ 11 – Cylch gorchwyl** | **Camau gweithredu** |
| Cyflwynwyd Cylch Gorchwyl drafft ar gyfer y Grŵp Trawsbleidiol ar Anhwylderau Bwyta i'r grŵp. Oherwydd bod amser yn brin, caiff y cylch gorchwyl ei ddosbarthu i'r aelodau a'i gytuno'n ffurfiol yn y cyfarfod nesaf. | **KD/MB** i ddosbarthu'r cylch gorchwyl i aelodau'r Grŵp Trawsbleidiol |
| **CPGED/NAW4/12 – Cyfarfodydd yn y dyfodol** | **Camau gweithredu** |
| Cytunodd y grŵp y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar ôl y Nadolig ond cyn toriad y Pasg. | **MB** a **BJ** i gytuno ar ddyddiad a'i ddosbarthu |
| Diolchodd BJ i bawb am eu presenoldeb ac i SSE a LR am eu cyflwyniad llawn gwybodaeth, a diddorol iawn. | |

DRAFT